

Aseiad personol – Rhifedd (Gweithdrefnol)

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deall adborth

Mae'ch plentyn wedi gwneud aseiad personol ar-lein byr ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol). Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adborth.

Pwrpas aseidiadau personol yw helpu plant i ddatblygu, trwy ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud, y pethau y mae angen iddyn nhw weithio arnynt, a'u camau nesaf.

Beth yw Rhifedd (Gweithdrefnol)?

Mae Rhifedd (Gweithdrefnol) yn canolbwyntio ar ffeithiau a gweithdrefnau rhifiadol – yr 'offer' rhifiadol sy'n angenrheidiol i gymhwyso rhifedd mewn ystod o gyd-destunau.

Sut mae'r aseiad yn gweithio?

Dewisir y cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob cwestiwn wedi'i ddewis yn seiliedig ar yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol. Os bydd disgyblion yn cael cwestiwn yn iawn byddan nhw'n cael cwestiwn ychydig yn fwy anodd nesaf. Os na fyddan nhw'n gallu ateb cwestiwn, neu os fyddan nhw'n ateb yn anghywir, byddan nhw'n cael cwestiwn ychydig yn haws. Bydd pob disgybl yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyma sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob disgybl ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd pob disgybl yn derbyn aseiad sy'n unigryw iddynt.

Beth mae'r adborth yn ei ddweud?

Mae'r adborth hwn yn gipolwg ar sgiliau eich plentyn ar yr adeg y cynhaliwyd yr aseiad. Dim ond un ffynhonnell wybodaeth yw hi am ddealltwriaeth a gwybodaeth gyffredinol eich plentyn. Er mwyn cynllunio gwaith dysgu'r plentyn, bydd yr athro'n ystyried yr adborth hwn, ochr yn ochr â gwybodaeth arall am sgiliau rhifedd eich plentyn sy'n deillio o waith yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r adran gyntaf '**Y cwestiynau mwyaf anodd ges i'n gywir oedd ar y sgiliau hyn:**' yn rhestru'r meysydd lle rhoddodd eich plentyn atebion cywir ar gyfer y cwestiynau mwyaf heriol.

Mae'r ail adran '**Efallai fod angen imi weithio ar hyn:**' yn ymwneud â'r cwestiynau a atebwyd yn anghywir a'r meysydd y gallai fod angen canolbwyntio arnynt nhw.

Mae'r ddwy adran olaf '**Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â sgiliau tebyg yn gallu ... ac maen nhw'n debygol o symud ymlaen i wneud hyn:**' yn ymwneud â pherfformiad cyffredinol eich plentyn yn yr aseiad ac yn rhoi trosolwg o'r math o sgiliau y gall disgyblion sydd â phatrwm tebyg o atebion eu cyflawni neu weithio tuag atynt.

Bydd adroddiadau i rieni a gofalwyr yn cael eu darparu ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, gan ddangos cynnydd dros amser, yn seiliedig ar sgôr safonedig.

Gellir gweld cwestiynau enghreifftiol sy'n berthnasol i bob datganiad sgiliau a restrir yn yr adborth drwy glicio ar y botwm 'cwestiwn enghreifftiol PDF' pan fydd eich plentyn wedi mewngofnodi i'w gyfrif Hwb.

Cyflwyno aseidiadau personol

Mae aseidiadau personol yn cael eu cyflwyno fesul cam dros y tair blynedd nesaf. Cewch fwy o wybodaeth am hyn yn: dysgu.llyw.cymru/asesiadaupersonol neu hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol

